

McCloud/ Sargeant - Rhwymedi Pensiynau Ateb eich cwestiynau

Rhwymedi Pensiynau (neu Rhwymedi 2015 fel y'i gelwir yn swyddogol) yw'r term a ddefnyddir ar gyfer y newidiadau sydd i ddod yng nghynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Bydd Rhwymedi 2015 yn mynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran y bernir ei fod wedi digwydd mewn cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, megis Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Bu nifer o newidiadau i drefniadau pensiwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi arwain at yr aelodau'n cael llawer o wybodaeth 'newydd.' Rydym yn ymwybodol o'r dryswch y gall hyn ei achosi, a hefyd bod nifer o 'fythau', 'anwireddau', 'straeon newyddion ffug', ac ati, yn cylchredeg mewn perthynas â Rhwymedi 2015 a'i effaith ar fuddion aelodau.

Mae'n bwysig i ni fod gan aelodau wybodaeth gywir wrth wneud penderfyniadau pwysig am eu dyfodol, hyd yn oed os na fydd angen gwneud y penderfyniadau hynny am beth amser. Dylai'r wybodaeth a ddarperir yma helpu i ateb rhai o'r cwestiynau ynghylch Rhwymedi 2015 sydd gan aelodau.

Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth am gynllun CARE 2015 gan ein bod yn gwybod bod hwn yn bwnc arall y mae gan bobl gwestiynau yn ei gylch. Byddwn yn cynhyrchu deunydd cyfathrebu ym mis Mawrth 2022 a fydd yn amlygu buddion mewn mwy o fanylder, a ddylai helpu eich dealltwriaeth ymhellach.

Yn y cyfamser, os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth ar ôl darllen y ddogfen hon, ewch i:

fpsmember.org/2015-remedy

Mae'r wybodaeth a ddarperir yma wedi'i pharatoi ar gyfer Bwrdd Cyngori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru (SABW) gan Barnett Waddingham LLP. Mae Barnett Waddingham LLP wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Cyn i ni fynd ati i wirio rhai o'r 'ffeithiau' ynghylch Rhwymedi 2015, gadewch i ni fynd i'r afael ag un neu ddau o gwestiynau allweddol eraill y gwyddom y mae aelodau'n eu gofyn...

Beth yw Rhwymedi 2015 a pham y mae'n bwysig?

Cyn 2015 (2014 yn achos llywodraeth leol), roedd cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol. Yn 2015 (2014 yn y drefn honno), aeth y Llywodraeth ati i ddisodli'r cynllun cyflog terfynol gan gynlluniau cyflog cyfartaledd gyrfa (CARE) newydd ar gyfer gwasanaeth pensiynadwy yn y dyfodol. Roedd yn rhaid i aelodau a oedd eisoes yn rhan o'r cynlluniau cyflog terfynol newid i'r cynlluniau CARE newydd, oni bai eu bod yn destun 'trefniadau gwarchod', a roddwyd yn seiliedig ar ba mor agos yr oedd yr aelod i'r oedran pensiwn arferol.

Ym mis Rhagfyr 2018, canfu dyfarniad McCloud/ Sargeant fod y trefniadau gwarchod a gyflwynwyd yn 2015 yn wahaniaethol yn erbyn aelodau iau y cynlluniau cyflog terfynol. Ym mis Chwefror 2021, ar ôl ymgynghori ar ei chynnyg i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran, cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb a esboniai'r canlynol:

- Bydd cynlluniau cyflog terfynol yn cael eu cau'n barhaol i groniad pensiwn yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2022. Bydd y cynlluniau cyflog terfynol hyn yn cael eu galw'n 'gynlluniau gwaddol.'
- Bydd pob aelod (gan gynnwys aelodau a oedd eisoes yn destun trefniadau gwarchod) yn cronni buddion yn y cynlluniau CARE perthnasol o 1 Ebrill 2022. Bydd y cynlluniau CARE yn cael eu galw'n 'gynlluniau diwygiedig.'
- Bydd unrhyw wasanaeth a gronnwyd gan aelodau yr effeithir arnynt mewn cynllun CARE yn ystod 'cyfnod y rhwymedi' (1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022) yn cael ei drosi'n wasanaeth cynllun cyflog terfynol.

- Pan fyddant yn ymddeol, bydd angen i aelodau yr effeithir arnynt benderfynu ar y modd y maent am i'r buddion a gronnwyd yn ystod cyfnod y rhwymedi gael eu cyfrifo. Mae'n ddewis rhwng y cynllun cyflog terfynol perthnasol neu gynllun CARE 2015.
- Darperir datganiadau buddion blynyddol i aelodau ar gyfer pob un o'r cynlluniau hyn, gan nodi eu hawl dan y ddau opsiwn. Bydd hyn yn sicrhau bod gan aelodau ddealltwriaeth glir o'r buddion sydd ar gael fel y gallant ddewis yr opsiwn mwyaf buddiol iddynt pan fyddant yn casglu eu buddion.

Ar bwy y mae Rhwymedi 2015 yn effeithio?

Bydd Rhwymedi 2015 yn effeithio ar aelodau os yw'r canlynol yn berthnasol:

- Roeddent yn aelod o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, neu'n gymwys i fod yn aelod, ar 31 Mawrth 2021 neu cyn hynny; ac
- Roeddent yn aelod o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022; ac
- Roedd y ddau gyfnod uchod yn ddi-dor (neu'n cael eu trin yn gyfnodau di-dor dan reoliadau'r cynllun, gan gynnwys seibiant cymwys o'r gwasanaeth o lai na phum mlynedd).

Nid yw'r newidiadau'n effeithio ar aelodau gweithredol yn unig, ond hefyd ar aelodau gohiriedig neu bensynwyr sydd wedi gadael neu wedi ymddeol ers 1 Ebrill 2015.

'Ffeithiau' ynghylch Rhwymedi 2015 – Cywir neu Anghywir

Mae angen i mi weithredu 'nawr neu byddaf ar fy ngholled

ANGHYWIR

Nid oes angen i aelodau gymryd unrhyw gamau 'nawr. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gymhwyso'r newidiadau hyn ar draws holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Mae hyn yn golygu nad oes angen i aelodau wneud unrhyw beth i gael Rhwymedi 2015 nac i warchod eu buddion presennol.

Bydd angen i aelodau yr effeithir arnynt wneud penderfyniad pan fyddant ar fin ymddeol, p'un a ydynt am gymryd buddion a gronnwyd yn ystod cyfnod y rhwymedi o'r cynllun cyflog terfynol neu'r cynllun CARE 2015 perthnasol. Darperir eglurebau o fuddion y ddau gynllun i aelodau i'w helpu i benderfynu.

Bydd gweinyddwyr Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cysylltu'n awtomatig ag aelodau gohiriedig ac aelodau sy'n bensynwyr yr effeithir arnynt ac sydd wedi gadael y cynllun neu wedi ymddeol ers mis Ebrill 2015. Yr unig gamau y dylech eu cymryd yw sicrhau bod gan weinyddwr eich cynllun pensiwn eich manylion cyswllt cyfredol.

Mae rhestr o weinyddwyr ar gael yma:

fpsmember.org/contact

Mae angen i mi adael y cynllun cyn 1 Ebrill 2022 i 'warchod' buddion fy nghynllun cyflog terfynol.

Os byddaf yn symud i gynllun CARE 2015 pan fydd fy nghynllun cyflog terfynol yn cau, byddaf yn colli'r hawliau i'm cynllun pensiwn 1992/2007.

ANGHYWIR

Mae'n wir y bydd cynlluniau cyflog terfynol yn cael eu cau i groniadau pensiwn yn y dyfodol ar 1 Ebrill 2022. Mae hyn yn golygu y bydd pob aelod gweithredol (gan gynnwys aelodau sy'n destun trefniadau gwarchod) yn symud i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 (cynllun CARE 2015) o 1 Ebrill 2022 ac yn cronni buddion yng nghynllun CARE 2015 o'r dyddiad hwnnw.

Fodd bynnag, pan fyddwch yn symud i gynllun CARE 2015 ar 1 Ebrill 2022, byddwch yn dal i gael mynediad at unrhyw fuddion cyflog terfynol a gronnwyd gennych yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 (FPS 1992) neu Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 (FPS 2007).

Ni wneir unrhyw newidiadau i'r buddion hyn, a bydd y buddion a gronwyd gennych yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio rheolau'r cynllun cyflog terfynol pan fyddwch yn ymddeol, sy'n golygu bod eich buddion cyflog terfynol wedi'u gwarchod.

Bydd eich gwasanaeth yn y dyfodol hefyd yn cyfrif tuag at groniad dwbl mewn perthynas â gwasanaeth yn FPS 1992. Bydd yr eglurebau o fuddion a fydd ar gael ym mis Mawrth 2022 yn dangos y modd y mae hyn yn gweithio.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma:

fpsmember.org/fps-2015/double-accrual-guarantee

Ond bydd yn rhaid i mi weithio hyd nes y byddaf yn 60 i gael unrhyw beth!

ANGHYWIR

Gallwch barhau i ddewis ymddeol ar ôl cyrraedd oedran pensiwn arferol eich cynllun cyflog terfynol. Byddech wedyn yn cael y swm canlynol:

- Eich pensiwn cyflog terfynol hyd at 31 Mawrth 2015 o'ch oedran pensiwn arferol perthnasol;
- Yn achos gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, y dewis o bensiwn i'w gyfrifo yn unol â'ch cynllun cyflog terfynol neu gynllun CARE 2015 perthnasol; ac
- Unrhyw bensiwn yng nghynllun CARE 2015 a gronwyd o 1 Ebrill 2022 hyd at ddyddiad eich ymddeoliad.

Bydd unrhyw bensiwn yng nghynllun FPS 1992 yn cael cynnydd croniad dwbl fel y nodir uchod.

Mae'n bosibl y bydd cynllun pensiwn CARE 2015, yn achos gwasanaeth yng nghyfnod y rhwymedi a gwasanaeth ar ôl 1 Ebrill 2022, yn cael ei leihau os byddwch yn dewis cymryd eich pensiwn CARE 2015 cyn cyrraedd 60 oed, a hynny am ei fod yn cael ei dalu am gyfnod hirach na'r disgwyl.

Os byddwch yn dewis ymddeol cyn 55 oed, ni fyddwch yn gallu cael mynediad at eich cynllun pensiwn CARE 2015 ar unwaith. Gellir cymryd hwn, wedyn, pan fyddwch yn 55 oed gyda gostyngiadau ymddeoliad cynnar, neu ei dalu'n llawn pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae'r newidiadau'n effeithiau arnaf mewn modd negyddol; byddwn yn well fy myd yn ariannol pe byddwn yn optio allan o gynllun CARE 2015.

ANGHYWIR

Gallwch optio allan o'r cynllun unrhyw bryd, ond meddylwch yn ofalus cyn gwneud hyn ac ystyriwch gael cyngor ariannol annibynnol. Er y gall eich cyflog clir fod yn uwch, byddwch yn colli buddion gwerthfawr eraill, gan gynnwys incwm gwarantedig ychwanegol pan fyddwch yn ymddeol, a buddion marw yn y swydd.

Mae cynllun CARE 2015 yn dal i fod yn gynllun buddion diffiniedig gwerthfawr, y disgwylir iddo fod yn werth mwy na'ch cyfraniadau. Mae'n gynllun Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi eu Hailbrisio (CARE), sy'n golygu ei fod yn darparu buddion yn seiliedig ar eich enillion cyfartalog trwy gydol eich gyrfa yn lle'r cyflog terfynol.

Ychwanegir pensiwn o 1/61.4fed rhan o'ch cyflog at eich cyfrif pensiwn bob blwyddyn a'i ailbrisio yn unol ag enillion wythnosol cyfartalog tan eich ymddeoliad. Pan fyddwch yn ymddeol, bydd gennych yr opsiwn i gyfnwedd rhan o'ch pensiwn am gyfandaliad di-dreth.

Os byddwch yn optio allan o gynllun CARE 2015, dylech fod yn ymwybodol na fyddwch yn elwa o Gronni Pensiwn ychwanegol mewn cynllun lle mae'r cyflogwr yn cyfrannu cyfran sylweddol o'r gost. Byddwch yn cael lefel is o bensiwn ar ôl ymddeol, a bydd hefyd yn effeithio ar fuddion marw yn y swydd a gwerth unrhyw bensiwn afiechyd posibl.

Mae buddion cynllun CARE 2015 ar gyfer aelodau gweithredol yn daladwy o 60 oed (heb ostyngiad) ac o 55 oed ymlaen (gyda gostyngiad). Os byddwch yn optio allan, bydd buddion yn daladwy, yn hytrach, pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, a bydd pensiwn CARE a gymerir cyn oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei leihau yn unol â'r ffactorau ymddeoliad cynnar perthnasol. Ni fydd pensiwn CARE, ychwaith, yn cael ei ailbrisio yn unol ag enillion wythnosol cyfartalog, ond yn hytrach yn unol â Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

Os byddwch yn optio allan, bydd buddion eich cynllun cyflog terfynol hefyd yn cael eu gohirio. Mewn achos o'r fath, bydd buddion cynllun FPS 1992 yn daladwy pan fyddwch yn 60 oed, a buddion FPS 2007 pan fyddwch yn 65 oed.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

fpsmember.org/fps-2015/opting-out

Gallaf drosglwyddo fy muddion allan o'r cynllun pensiwn yn lle hynny ...

CYWIR er bod yna gyfyngiadau

Os byddwch yn gadael y cynllun pensiwn, efallai y gallwch drosglwyddo eich buddion i gynllun pensiwn sector cyhoeddus arall neu gynllun pensiwn galwedigaethol cofrestredig â buddion diffiniedig yn y Clwb Trosglwyddo Sector Cyhoeddus. Fodd bynnag, dan reoliadau'r Llywodraeth, nid yw'n bosibl trosglwyddo i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig, megis pensiwn personol.

Dim ond ar ôl i chi adael y cynllun pensiwn y gallwch drosglwyddo eich buddion, a chyn belled nad ydych o fewn blwyddyn i gyrraedd oedran pensiwn arferol.

Rwyf wedi clywed bod yna rai pobl ar gyflogau uchel yn optio allan o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Rhaid bod hyn yn golygu nad ydynt o werth.

ANGHYWIR

Efallai eich bod wedi clywed am rai pobl ar gyflogau uchel sy'n optio allan o'r cynlluniau. Er na allwn wneud sylw am achosion unigol, byddem yn disgwyl y gallai hyn fod er mwyn osgoi ysgogi tâl treth ar y lwfans blynyddol neu'r lwfans oes gyfan trwy aros yn y cynllun.

Er gwybodaeth, y lwfans blynyddol yw'r terfyn ar y cyfanswm y gellir ei gynilo mewn cynllun pensiwn ym mhob blwyddyn dreth (rhwng £10,000 a £40,000 ar hyn o bryd), sydd â rhyddhad treth yn berthnasol a chyn y gallai tâl treth fod yn daladwy. Y lwfans oes gyfan (£1,073,100 ar hyn o bryd) yw'r terfyn ar faint o fuddion pensiwn y gallwch eu cronni yn ystod eich oes wrth ddal i fanteisio ar fuddion treth llawn.

Os ydych yn meddwl y gallai hyn effeithio arnoch, rydym yn argymhell eich bod yn ceisio cyngor ariannol rheoledig, gan y gallai fod o fudd i chi aros yn y cynllun, hyd yn oed os bydd raid i chi dalu treth neu ofyn i'r cynllun ei thalu ar eich rhan yn gyfnewid am ostyngiad mewn buddion.

Mae rhagor o wybodaeth am dreth ar gael yma:

fpso.org.uk/need-to-know/tax-and-your-pension-benefits

Ar ôl i mi gyrraedd 30 mlynedd o wasanaeth, ni fyddaf yn cronni rhagor o fuddion yng nghynllun CARE 2015.

ANGHYWIR

Nid oes cyfyngiad ar faint o wasanaeth y gallwch ei gronni yng nghynllun CARE 2015, ni waeth faint a gronnwyd yn eich cynllun cyflog terfynol. Uchafswm y gwasanaeth y gellir ei gronni yn y cynlluniau cyflog terfynol yw 40 mlynedd (30 mlynedd ar gyfer cynllun FPS 1992 gan fod gwasanaeth ar ôl 20 mlynedd yn cyfrif ddwywaith).

Os ymunais cyn fy mod yn 20 oed, byddaf yn dal i gael fy ngwyliau cyfraniadau ar ôl 30 mlynedd wedi i mi drosglwyddo i gynllun CARE 2015.

ANGHYWIR

Cyflwynwyd y gwyliau cyfraniadau i gymryd i ystyriaeth y ffaith na allai aelodau gronni mwy na 30 mlynedd o wasanaeth yng nghynllun FPS 1992.

Gan nad oes yna gyfyngiad ar wasanaeth yng nghynllun CARE 2015, nid yw'r ddarpariaeth gwyliau cyfraniadau yn berthnasol. Byddwch yn parhau i gronni buddion am bob blwyddyn yr ydych yn aelod o'r cynllun.

Os byddaf yn symud i gynllun CARE 2015 pan fydd y cynllun cyflog terfynol yn cau, ni fyddaf yn cael cyfandaliad di-dreth pan fyddaf yn ymddeol.

ANGHYWIR

Nid yw'r rheolau sy'n ymwneud â chyfandaliadau di-dreth yn newid. Mae hyn yn golygu y byddwch yn dal i allu cael mynediad at gyfandaliad di-dreth o'ch cynlluniau cyflog terfynol a CARE 2015 pan fyddwch yn ymddeol. Os oes gennych wasanaeth yng nghynllun FPS 1992, bydd y ffactorau cyfnewid sy'n gysylltiedig ag oedran yn dal yn berthnasol i'r rhan hon o'ch buddion.

Rydym am i'n pensiynau gael eu hunioni ... Mae fy Awdurdod Tân ac Achub yn Ilaesu dwylo.

ANGHYWIR

Gan fod Rhwymedi 2015 yn cynnig dewis gohiriedig, ni fydd yn rhaid i lawer o bobl wneud penderfyniad am beth amser, nes eu bod ar fin ymddeol.

Mae hyn yn ddefnyddiol, oherwydd mae yna faterion cymhleth i'w datrys o hyd, a heriau gweinyddol i'w goresgyn cyn y bydd cynlluniau mewn sefyllfa i roi Rhwymedi 2015 ar waith a phrosesu achosion heb y perygl na fydd aelodau yn cael y rhyddhad treth neu'r llog yn gywir ar y taliadau amrywiol y bydd angen eu gwneud.

Dyma pam y mae'r Llywodraeth wedi rhoi tan fis Hydref 2023 i gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, er mwyn gwneud cyfreithiau newydd i symud aelodau o'r cynlluniau CARE yr effeithir arnynt yn ôl i'w cynlluniau cyflog terfynol ar gyfer cyfnod y rhwymedi a chynnig dewis i'r rheiny sy'n ymddeol.

I gael rhagor o wybodaeth am gynnydd y Llywodraeth o ran rhoi Rhwymedi 2015 ar waith, ewch i:

commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-9177

Fodd bynnag, yn achos y rheiny sy'n ymddeol yn gynt neu sydd eisoes wedi ymddeol, mae Awdurdodau Tân ac Achub unigol yn ystyried y modd y gellir ymateb i arweiniad newidiol y Llywodraeth ar brosesu achosion. Bydd unrhyw daliadau a wneir yn ddiweddarach yn cael eu hól- ddyddio a bydd llog yn cael ei ychwanegu atynt.

Rydym hefyd yn sicrhau y bydd gwybodaeth fanylach ar gael i aelodau ym mis Mawrth 2022. Bydd yr wybodaeth hon yn dangos ystod o senarios enghreifftiol aelodau i'ch helpu i gael gwell dealltwriaeth o oblygiadau Rhwymedi 2015 ar gyfer eich buddion.

Mae'r gwahaniaethau rhwng cynlluniau pensiwn cyflog terfynol a CARE yn golygu bod y set o fuddion sydd orau i aelodau yn dibynnu ar amgylchiadau a dewisiadau personol, gan gynnwys pethau nad ydych efallai'n gwybod eto, megis y modd y bydd eich cyflog yn newid yn y dyfodol a phryd y byddwch yn ymddeol. Bydd yr wybodaeth yn amlinellu senarios amrywiol, gan ddefnyddio cerrig milltir a phroffiliau cyflog gwahanol ar gyfer set o aelodau enghreifftiol mewn gwasanaeth ar draws yr holl gynlluniau cyflog terfynol.

Mae hyn yn golygu y byddwch yn gallu gweld y buddion y byddai gan yr aelodau hawl iddynt pe byddent yn ymddeol ar y cerrig milltir hyn, gan gymharu sefyllfa'r aelod sy'n dewis buddion cyflog terfynol neu CARE ar gyfer cyfnod y rhwymedi.

